



Ysgol Pentreuchaf

5. Polisi Adrodd i Rieni

Nod

Sicrhau ein bod yn cyflawni gofynion parthed adrodd i rieni.

Canllawiau

Corff Llywodraethol yn rhannu gwybodaeth â rhieni

Caiff Adroddiad Blynyddol ei baratoi a'i ddsbarthu gan y Corff Llywodraethol yn ystod Tymor yr Hydref. Ceir mwy o wybodaeth am y canllawiau statudol ynglŷn â chynnal cyfarfod blynyddol ar y safwe isod :

<http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/130503-statutory-guidance-parents-meetings-cy.pdf>

Hawl rhieni i ofyn am gyfarfod gyda chorff llywodraethu'r ysgol

Mae *Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013* yn cyflwyno trefniadau newydd fel y bo modd i rieni ofyn am hyd at 3 chyfarfod gyda chorff llywodraethu mewn unrhyw flwyddyn ysgol, i drafod materion sy'n peri pryder iddyn nhw.

Os yw rhieni am arfer eu hawliau dan y Ddeddf i gynnal cyfarfod, bydd angen bodloni 4 gofyniad:

1. Bydd angen i rieni gyflwyno deiseb o blaid cynnal cyfarfod.

Bydd angen i rieni o leiaf 10% o ddisgyblion cofrestredig yr ysgol lofnodi'r ddeiseb. Yn achos deiseb ar bapur, rhaid rhoi llofnod ysgrifenedig, yn ogystal ag enw a dosbarth pob plentyn sy'n ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol. Os yw'r ddeiseb yn un electronig, bydd angen i riant 'lofnodi' drwy deipio ei enw a bydd rhaid rhoi enw a dosbarth pob plentyn sy'n ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol a chyfeiriad e-bost pob riant sy'n 'lofnodi'r' ddeiseb electronig.

Gallwch gysylltu â swyddfa'r ysgol i gael gwybod yn union faint sydd ar y gofrestr ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn.

2. Rhaid galw'r cyfarfod i drafod materion sy'n effeithio ar yr ysgol.

Ni ellir galw cyfarfod i drafod materion fel cynnydd disgyblion unigol, neu er mwyn gwneud cwyn yn erbyn aelod o staff yr ysgol neu aelod o'r corff llywodraethu.

Dylai'r ddeiseb gynnwys manylion cryno am y mater(ion) i'w trafod, a'r rhesymau dros alw'r cyfarfod. Dylid dangos yr wybodaeth honno'n glir ar frig y ddeiseb, a dylai'r rhieni lofnodi oddi tani.

3. Ceir cynnal uchafswm o 3 chyfarfod yn ystod y flwyddyn ysgol

Mae'r gyfraith yn caniatáu i rieni arfer eu hawliau i ofyn am hyd at 3 chyfarfod gyda chorff llywodraethu ysgol yn ystod y flwyddyn ysgol.

4. Rhaid bod o leiaf 25 o ddiwrnodau ysgol ar ôl yn y flwyddyn ysgol

Mae'n amod dan y gyfraith fod o leiaf 25 o ddiwrnodau ysgol ar ôl yn y flwyddyn ysgol pan fo'r ddeiseb yn dod i law, a hynny fel y bo modd cynnal y cyfarfod.

Ystyr "diwrnod ysgol" yw diwrnod pan fo'r ysgol yn agored i ddisgyblion: nid yw'n cynnwys penwythnosau, gwyliau cyhoeddus, gwyliau ysgol na diwrnodau Hyfforddiant mewn Swydd (HMS).

Adrodd ar gynnydd a chyrhaeddiad disgyblion

i). Yn flynyddol, cynhelir dwy noson i rieni ac un diwrnod agored er mwyn gweld gwaith eu plant a thrafod eu datblygiad gyda'r athrawon ac 1 i drafod lefelau diwedd Cyfnod Allweddol ac Adroddiad.

- ii). Yn yr un modd, bydd y Cydlynnydd AAA a'r pennaeth yn trafod datblygiad a darpariaeth disgyblion ag AAA dair gwaith y flwyddyn ac yn sicrhau cyfleoedd i ddynt roi mewnbwn o ran Cynlluniau Addysg Unigol.
- iii). Yn nhymor yr Haf, caiff pob rhiant/warcheidwad adroddiad ysgrifenedig am gyrhaeddiad eu plant. Bydd yr adroddiadau yma yn cael eu rhannu o leiaf wythnos cyn y noson rieni.
- iv). Bydd yr athrawon a'r plant wedi trafod a chytuno ar dargedau personol cyn pob noson rieni. Caiff rhain eu cofnodi a'u trafod gyda'r rhieni. Bydd gwybodaeth am bresenoldeb, ymddygiad ac ymroddiad i dasgau hefyd yn cael eu rhannu gyda'r rhieni.
- v). Caiff Aseiad Sylfaen pob plentyn blwyddyn Derbyn ei drafod gyda'r rhieni yn ystod Tymor yr Hydref.
- vi). Bydd yr ysgol yn rhannu unrhyw adroddiadau eraill ar ddatblygiad plant (e.e. adroddiadau offerynnau cerdd) gyda'r rhieni.
- vii). Cedwir copi o bob adroddiad.
- viii). Os nad yw rhiant yn medru bod yn bresennol mewn noson rieni, cynigir amser arall iddynt drafod gyda'r athrawes, gan y credwn ei bod yn holl-bwysig fod rhieni yn ymwybodol o ddatblygiad eu plant ac yn gwybod sut i'w helpu ymhellach.
- ix). Yn achlysurol, bydd angen i ni gysylltu gyda rhiant os bydd pryder penodol ynglyn â datblygiad neu agwedd disgybl. Ceisiwn ddarganfod pam fod problem a chydweld ar y ffordd gorau i helpu'r plentyn.

Casgliad

Mae'n holl bwysig fod rhieni yn teimlo'n rhan o addysg a bywyd ysgol eu plant, a'n bod yn rhannu gwybodaeth a chydweld ar rai penderfyniadau gyda hwy.

Adolygir: Ionawr 2017

Arwyddwyd: _____, Cadeirydd y Llywodraethwyr

Dyddiad: _____